Ysgol Brynrefail

Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD

Pennaeth/Headteacher:
Mr Eifion Jones, BSc.
☎(01286) 672381
(01286) 672066
swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk
www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

11.5.15

Annwyl Riant/Warcheidwad

Par: Holi Barn Rhieni

Fel rhan o'r broses o fonitro ansawdd y gwasanaeth a'r addysg yr ydym yn ei gynnig yn Ysgol Brynrefail, yr ydym yn awyddus iawn i gael eich barn chi fel rhieni. I'r pwrpas hwn, yr ydym wedi datblygu holiadur syml y gellir ei gwblhau ar lein (neu ar bapur pe byddech yn dymuno). Mae'r holiadur yn gofyn eich barn am nifer o agweddau pwysig o fywyd yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysg y mae eich plentyn yn ei dderbyn, gwaith cartref a gofal a lles disgyblion yn yr ysgol. Fe fydd canlyniadau'r holiaduron yn cael eu dadansoddi gennym ac yn cael eu defnyddio i'r pwrpas o adnabod ein cryfderau fel ysgol a meysydd sydd angen gwaith datblygu pellach.

Gellir cael mynediad i'r holiadur fel a ganlyn:

http://holi.cynnal.co.uk
Enw defnyddiwr: rhienibrynrefail
Cyfrinair: brynrefail

Ar y dudalen agoriadol fe welwch gyswllt i Holiadur Rhieni Estyn. Wrth glicio ar y linc uchod fe gewch fynediad i'r holiadur.

Fe sicrheir cyfrinachedd y broses wrth roi enw defnyddiwr/cyfrinair cyffredinol i bawb. Mae croeso i chi gysylltu â swyddfa'r ysgol ar 01286 672381 os ydych yn dymuno cael fersiwn bapur o'r holiadur.

Gofynnir i chi gwblhau'r broses rhwng Dydd Mawrth Mai 12fed a Dydd Gwener Mai 22ain.

Gyda diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymatebion.

Yn gywir,

Ellen A Williams

Ellen A Williams
Dirprwy Bennaeth